# DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 2 o Atodlen 4 – Mynychu cyfarfodydd awdurdodau lleol: diwygiadau canlyniadol

298. Mae paragraff 23(1) yn rhoi is-baragraff newydd yn lle paragraff 29(1) o Atodlen 12 i Ddeddf 1972 er mwyn darparu y caiff cyngor cymuned benderfynu drosto ei hun ar y dull o bleidleisio yn ei gyfarfodydd, yn hytrach na'i bod yn ofynnol iddo bleidleisio drwy godi dwylo (fel ag yr oedd yn ofynnol ym mharagraff 29(1) yn flaenorol), sy'n anghyson â chynnal cyfarfodydd cyngor cymuned o bell.

299. Mae is-baragraffau (2) a (3), yn y drefn honno, yn diddymu adran 4 o Fesur 2011 (mynychu o bell) ac adran 59 o Ddeddf 2013 (Mynychu cyfarfodydd prif gynghorau o bell) o ganlyniad i adran 47 o'r Ddeddf.

300. Effaith is-baragraff (4) yw nad yw gwneud a chyhoeddi trefniadau ar gyfer cynnal cyfarfodydd prif gyngor neu ei weithrediaeth o dan adran 47 o'r Ddeddf hon yn swyddogaeth i weithrediaeth awdurdod lleol.

### *Adran 50 – Rheoliadau yngl#n â chynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol, dogfennau sy'n ymwneud â chyfarfodydd a chyhoeddi gwybodaeth*

301. Mae adran 50 yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch cynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol, dogfennau sy'n ymwneud â'r cyfarfodydd hynny a chyhoeddi gwybodaeth benodol.

302. Mae is-adran (1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â chynnal cyfarfodydd awdurdodau lleol a'r gofynion sy'n ymwneud â hysbysiadau a dogfennau sy'n cael eu llunio ar gyfer y cyfarfodydd hynny gan gynnwys y materion a restrir yn is-adran (2), ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

303. Mae is-adran (3) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ymwneud â chyhoeddi gwybodaeth gan awdurdodau lleol sy'n nodi manylion penodol fel y'u rhestrir yn yr is-adran, a hawliau i gael mynediad at yr wybodaeth honno.

304. Mae is-adran (5) yn diffinio "awdurdod lleol" a "cyfarfod awdurdod lleol" at ddibenion yr adran hon.

305. Mae'r pwerau i wneud rheoliadau yn is-adrannau (1) a (3) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd.

### *Adran 51 – Rheoliadau yngl#n â chyfarfodydd cymunedol*

306. Mae adran 51 yn mewnosod paragraffau 36A a 36B newydd yn Atodlen 12 i Ddeddf 1972:

- er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch cyfarfodydd cymunedol; a
- ynghylch dyroddi canllawiau mewn perthynas â'r cyfarfodydd hynny.

307. Mae paragraff 36A(1) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â chynnal cyfarfodydd cymunedol a'r modd y'u cynhelir a'r gofynion ynghylch hysbysiadau a dogfennau sy'n ymwneud â'r cyfarfodydd hynny gan gynnwys y materion a restrir yn is-baragraff (2), ond heb fod yn gyfyngedig iddynt. Mae rheoliadau o dan y paragraff 36A(1) newydd yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol yn y Senedd.

308. Mae'r paragraff 36B newydd yn darparu bod rhaid i brif gyngor a chyngor cymuned sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas â chyfarfodydd cymunedol roi sylw i unrhyw ganllawiau ynghylch arfer y swyddogaethau hynny a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

### *Adran 52 – Adroddiadau blynyddol gan gynghorau cymuned*

309. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned lunio a chyhoeddi adroddiad blynyddol yngl#n â blaenoriaethau a gweithgareddau'r cyngor, a'r hyn a gyflawnodd yn ystod y flwyddyn ariannol a aeth heibio.

310. Mae is-adran (3) yn datgymhwyso adran 101 o Ddeddf 1972 (sy'n caniatáu i gyngor cymuned wneud trefniadau i unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau gael eu cyflawni gan bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog i'r cyngor neu gan awdurdodau penodol eraill) o ran y penderfyniad ynghylch cynnwys terfynol yr adroddiad blynyddol. Nid yw hyn yn rhwystro, er enghraifft, swyddog rhag llunio drafft o'r adroddiad i'r cyngor cymuned llawn ei ystyried a phenderfynu arno.